

Sul y Gwahanglwyf

Darlleniad 1: Eseia 61: 1-4

Darlleniad 2: Luc 17: 11-19

Ein Duw bendigedig, Duw tyner a sanctaidd,
Cyfaill y tlawd a goleuni ein tywyllwch,
Rhown ddiolch i ti, yr hwn sydd yn deilwng
o bob diolch a mawl.

Ti yw yr un sydd, yn dy ras,
yn dewis pethau ffôl y byd i gywilyddio'r doeth,
yn dewis y gwan i gywilyddio'r cedyrn.

Ti sydd yn adfer y gwahanglwyf,
yn cofleidio'r gwrthodedig,
yn rhoi urddas i'r dirmygedig,
ac yn rhoi gobaith i'r gwan-galon.

Rhoes dy Fab heibio ei ogoniant
i olchi traed pechaduriaid.
Daeth i'n plith megis un wedi ei ddirmygu a'i wrthod;
cymerodd ein gwendidau, a dygodd ein clwyfau;
safodd yn unig i ddiodef ein cosbedigaeth.

Dy Ysbryd sydd wedi iro clwyfau pechod,
ac wedi eneinio dy bobl ag olew llawenydd.
Yr wyt yn eu gwisgo mewn gorfoledd a gogoniant,
rhoist yn eu genau eiriau tragwyddoldeb.

Ti, borth y bywyd, iachawdwr y cenedloedd,
Bendigedig ydwyf, a'th gariad a'th drugaredd
sy'n ddi-derfyn.

Ein Tad, yr wyt wedi'n heneinio â'th Ysbryd, ac wedi'n hanfon i bregethu'r newyddion da i'r tlodion, i gysuro'r toredig o galon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion ac i roi gollyngdod i garcharorion y tywyllwch.

A ninnau'n gryf ac yn iach, cofiwn am lawer sydd mewn gwendid a salwch. Caniatâ i ni dy weld di yn ein gilydd, ac i sylweddoli beth yw pwrpas mawr ein bywyd ar y ddaear. Helpa ni i wneud daioni i'n gilydd, fel y bydd i ni, wrth fendithio'n gilydd, hefyd dderbyn bendith.

Deffra lywodraethau'r byd i ymgymryd â'u cyfrifoldeb o rannu yn y gwaith o fwydo, iachau, dysgu a rhyddhau holl bobloedd y byd. Diolch i ti am ei bod hi bellach yn bosib i wella pawb sy'n dioddef o'r gwahanglwyf yn y byd yma. Diolchwn am ymroddiad ac ymgysegiad y meddygon a'r gwyddonwyr hynny sydd wedi bod yn chwilio am y cyffuriau priodol i ddod â'r feddyginiaeth hon i fodolaeth.

Gweddiwn dros y rhai sy'n derbyn triniaeth at y gwahanglwyf ar hyn o bryd. Cofiwn hefyd am y rhai sy'n peidio dod i dderbyn y driniaeth am wahanol resymau; a'r rhai hynny y daw'r feddyginiaeth yn rhy hwyr i'w harbed rhag dioddef anabledd a fydd yn effeithio arnynt gydol eu bywyd.

Gweddiwn y bydd pobl yn dal i ymateb mewn haelioni i'r angen i gyfrannu at gost y feddyginiaeth, fel y bydd mwy a mwy o wahangleifion yn cael gwellhâd llwyr o'u doluriau, ac yn gallu wynebu bywyd o'r newydd mewn hyder a heb nam corfforol.

Gofynnwn am dy fendith ar yr ymdrech fyd-eang hon, a ninnau'n credu ei bod hi'n rhan o'th waith iachusol di. Amen.

Tecwyn Ifan